# Denbigh Golf Club Rules - Course and Club Premises

{Issued by the Management Committee Oct 2024)

**CYMRAEG ISOD**

1. Consideration for other players

1.1 Play without delay

1.2 Do not play until the players in front are out of range.

1.3 Obey all safety warning signs.

1.4 When searching for a ball, call through the players behind as soon as the ball is not easily found. Do not wait 3 minutes before doing so.

1.5 Move away from a green as soon as the hole is completed.

2. Behaviour during play

2.1 Do not talk, make a noise, move or stand close to a player making a stroke.

2.2 On the putting green, do not stand directly behind the ball or hole when a player is addressing the ball or making a stroke.

2.3 Be aware of players elsewhere on the course, do not make a noise or distract players on adjacent holes.

2.4 Shout 'fore' as a warning if a ball is played towards other players or if in any doubt about the safety of other players if a ball goes out of sight.

2.5 The sharing of clubs is strictly prohibited.

3. Priority on the course

3.1 Greens staff always have priority.

3.2 Priority on the course is determined by a group's pace of play. If the group behind are continually waiting to play, then they must be playing faster than your group. Unless you are being held up by the group in front, call through the group behind. The term 'group' includes a single player.

3.3 If either the President, Captain or Ladies' Captain is waiting at the first tee, priority of the tee must be offered to his/her group.

4. Practice on the course

4.1 Players may not practise from white tees.

4.2 A player, practising on the course, must not delay those playing a round.

4.3 A player, during a practice round, must not play more than two balls. He/she may only play a second ball if it causes no delay to those behind.

4.4 Greens on the course must not be used for chipping/pitching practice except as in 4.3

4.5 Driving balls from a tee, under the supervision of the professional, does not constitute practice on the course.

5. Care of the course

5.1 When taking practice swings, players should avoid causing damage to the course, particularly teeing grounds.

5.2 Before leaving a bunker, a player must carefully fill in and smooth over all holes and footprints. On completion, the rake must not be left outside the bunker.

5.3 In the General Area, a player must ensure that divots are replaced and pressed down.

5.4 Control your temper. Do not damage the course, particularly greens and teeing grounds.

5.5 Bags are not permitted on putting greens.

5.6 Players must repair pitch marks on greens.

5.7 Players must ensure that no damage is caused to putting greens when laying down flagsticks and that the edge of the hole is not damaged when handling a flagstick or removing a ball.

5.8 To protect the putting green from damage, players should avoid leaning on putters when removing a ball from the hole.

5.9 The flagstick must be correctly replaced in its hole prior to leaving the putting green.

6. Trolleys and Buggies

6.1 Notices and markings regulating the movement of trolleys and buggies should be strictly observed.

6.2 Trolleys and buggies must not be taken onto teeing grounds, greens, green aprons or between greens and greenside bunkers.

6.3 When the ground is soft, keep buggies well away from greens, make every effort to keep off fairways.

6.4 The rules for driving buggies (available in the professional's shop) must be always followed.

7. Dress

On the course

7.1 For safety reasons only golfing footwear is permissible. No trainers or non golfing footwear.

7.2 Only clothing that is designed for the purpose of playing golf is acceptable.

7.3 Rugby/football type shirts or shirts without a collar (other than recognised golf shirts) are not acceptable.

7.4 Jeans and tracksuits are not acceptable.

7.5 Shorts must be tailored. No sports shorts or non regulation shorts.

In the clubhouse

7.6 Smart casual wear is always acceptable, unless otherwise stated for formal occasions.

7.7 No golfing footwear, tracksuits or headwear to be worn in the lounge or dining room.

7.8 All clothing including denim jeans must be clean, not soiled.

7.9 Golf equipment is NOT permitted in any area except locker rooms.

8. Playing Guests

8.1 Members may introduce up to three guests to play a round of golf at the guest green fee. An individual guest is limited to a maximum of six rounds per calendar year, at the guest green fee, irrespective of his/her host.

9. Juniors

9.1 Juniors not accompanied by an adult must always report to the Professional before starting a round.

9.2 Junior Boys and Junior Girls who hold a WHS Handicap Index, are eligible to enter stroke play and knockout competitions

9.3 Juniors may not play for the President's, Captain's, Ladies' Captain's, or Ladies' Vice Captain's Prizes unless requested by the relevant officer of the club (President etc)

10. Miscellaneous

10.1 Members and guests must treat course and clubhouse staff with respect, at all times.

10.2 Bookings by a member for social golf, may only be made one week in advance. Note: Gents' Winter League is classified as social golf.

10.3 As a mark of respect, on the death of a member, (or, at the discretion of the Management Committee, an ex-member or non member) the club flag may be flown at half mast.

10.4 Players should refrain from cleaning shoes and equipment in the car park. Compressed air equipment is provided, in an adjacent area, for such a purpose.

# Rheolau Clwb Golff Dinbych – Y Cwrs a'r Golffdy

(cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Rheoli, Mehefin 2024)

**1. Ystyriaeth i chwaraewyr eraill**

1.1 Chwarae heb oedi.

1.2 Dim chwarae nes bod y rhai o'ch blaen yn ddigon pell.

1.3 Dilyn pob arwydd rhybudd.

1.4 Wrth chwilio am bêl, galw'r chwaraewyr tu ôl drwodd yn syth os nad yw'r bêl yn hawdd i'w chanfod. Peidio aros 3 munud cyn gwneud hynny.

1.5 Symud oddi wrth y lawnt unwaith y mae'r twll wedi'i gwblhau.

**2. Ymddygiad wrth chwarae**

2.1 Dim siarad, gwneud sŵn, symud neu sefyll yn agos at chwaraewr sydd ar fin taro.

2.2 Ar y lawnt bytio, dim sefyll yn union y tu ôl i'r bêl na'r twll pan fo chwaraewr ar fin taro neu wrthi'n taro.

2.3 Byddwch yn ymwybodol o chwaraewyr eraill ar y cwrs; peidiwch â gwneud sŵn neu dynnu sylw chwaraewyr tyllau cyfagos.

2.4 Gweiddwch *'fore'* fel rhybudd os yw'r bêl yn mynd tuag at chwaraewyr eraill neu os oes unrhyw amheuaeth am ddiogelwch chwaraewyr eraill pan fo'r bêl wedi mynd o'r golwg.

2.5 Ni chaniateir rhannu clybiau o gwbl.

**3. Blaenoriaeth ar y cwrs**

3.1 Blaenoriaeth i staff y cwrs bob amser

3.2 Mae blaenoriaeth ar y cwrs yn dibynnu ar gyflymder chwarae y grŵp. Os yw'r grŵp y tu ôl yn disgwyl yn gyson am gael chwarae, yna mae'n rhaid eu bod yn chwarae yn gyflymach na'ch grŵp chi. Onibai eich bod yn cael eich dal yn ôl gan y grŵp o'ch blaen chi, galwch y grŵp tu ôl drwodd. Mae'r gair 'grŵp' yn cynnwys chwaraewr unigol.

3.3 Os yw'r Llywydd, y Capten neu Gapten y Merched yn disgwyl ar y tî cyntaf, rhaid rhoi blaenoriaeth i'w grŵp nhw.

**4. Ymarfer ar y cwrs**

4.1 Ni chaiff chwaraewyr ymarfer oddi ar y tî gwyn

4.2 Ni ddylai chwaraewr, wrth ymarfer, achosi oedi i'r rhai sy'n chwarae rownd.

4.3 Ni ddylai chwaraewr, wrth ymarfer, chwarae mwy na dwy bêl. Gellir chwarae ail bêl os nad yw hynny'n achosi oedi i'r rhai sydd y tu ôl.

4.4 Ni ddylid defnyddio lawntiau'r cwrs ar gyfer ymarfer tsipio/pitsio ar wahân i'r 4.3 uchod.

4.5 Nid yw dreifio'r bêl o'r tî, dan oruchwyliaeth y Pro, yn cyfrif fel ymarfer ar y cwrs.

**5. Gofalu am y cwrs**

5.1 Wrth ymarfer eu swing, dylai chwaraewyr osgoi peri difrod i'r cwrs, yn arbennig llecyn y tî.

5.2 Cyn gadael y byncer, rhaid i chwaraewr lanw a gwastatáu unrhyw dyllau neu ôl traed. Wedi gorffen, ni ddylid gadael y cribyn y tu allan i'r byncer.

5.3 Yn gyffredinol ar y cwrs, rhaid i chwaraewyr sicrhau eu bod yn ailosod tyweirch a'u gwasgu i'w lle.

5.4 Rheolwch eich tymer. Peidiwch â difrodi'r cwrs, yn enwedig y lawntiau a llecynnau'r tî.

5.5 Ni ddylid gosod bagiau ar y lawnt bytio.

5.6 Rhaid i chwaraewyr atgyweirio difrod pitsio ar y lawnt.

5.7 Rhaid i chwaraewyr sicrhau na wneir difrod i'r lawnt bytio wrth osod polyn y fflag ar lawr ac na wneir difrod i ochrau'r twll wrth drin y polyn neu godi pêl o'r twll.

5.8 Er mwyn arbed y lawnt bytio rhag difrod, ni dylai chwaraewyr bwyso ar eu pytar wrth godi'r bêl o'r twll.

5.9 Rhaid ailosod polyn y fflag yn iawn cyn gadael y lawnt.

**6. Trolis a Bygis**

6.1 Rhaid dilyn pob rhybudd ac arwydd am lwybr trolis a bygis.

6.2 Ni ddylid mynd â throlis a bygis ar lecynnau tî, lawntiau, cyrion y lawnt neu rhwng y lawnt a byncer y lawnt.

6.3 Pan fo'r ddaear yn feddal, dylid cadw bygis ymhell o'r lawnt, ac oddi ar y rhodfeydd os yw'n bosibl.

6.4 Dylid dilyn rheolau gyrru bygis bob amser (i'w cael yn siop y pro).

**7. Gwisg**

**Ar y cwrs**

7.1 Am resymau diogelwch, dim ond esgidiau golff a ganiateir. Dim *trainers* nac esgidiau eraill.

7.2 Dim ond dillad pwrpasol ar gyfer chwarae golff sy'n dderbyniol.

7.3 Nid yw crysau rygbi/pêl-droed neu grysau heb goler yn dderbyniol (ar wahân i grysau golff arbennig).

7.4 Nid yw jîns na thracwisg yn dderbyniol.

7.5 Rhaid i drowsusau byr fod yn addas a phwrpasol. Dim siorts chwaraeon neu o unrhyw fath arall.

**Yn y golffdy**

7.6 Dillad hamdden taclus yn dderbyniol bob amser, ar wahân i achlysuron ffurfiol.

7.7 Dim esgidiau golff, tracwisg na chap i'w gwisgo yn y lolfa neu'r ystafell fwyta.

7.8 Rhaid i bob dilledyn, yn cynnwys jîns denim, fod yn lân.

7.9 NI chaniateir offer golff yn unman ond yn ystafelloedd y loceri.

**8. Chwaraewyr gwâdd**

8.1 Gall aelodau wahodd hyd at dri gwâdd i chwarae rownd gan dalu'r ffi gwâdd. Dim ond chwe rownd mewn blwyddyn a gaiff person gwâdd eu chwarae am y ffi gwâdd, pwy bynnag sy'n eu gwahodd i chwarae.

**9. Ieuenctid**

9.1 Rhaid i aelod ifanc heb gwmni oedolyn gofnodi ei fwriad i chwarae yn siop y Pro cyn mynd allan bob tro.

9.2 Gall Bechgyn a Merched Ifanc sydd â handicap CONGU chwarae mewn cystadlaethau cyfrif sgôr a gornestau bwrw allan.

9.3 Ni chaiff yr Ieuenctid gystadlu am Wobrau'r Llywydd, y Capten, neu Gapten ac Is-Gapten y Merched onibai eu bod wedi'u gwahodd gan y swyddog perthnasol (Llywydd ac ati)

**10. Amrywiol**

10.1 Rhaid i aelodau ac ymwelwyr drin y cwrs a staff y golffdy gyda pharch bob amser.

10.2 Ni chaiff aelod logi amser chwarae cymdeithasol fwy na wythnos ymlaen llaw. Sylwer fod Cynghrair Gaeaf y Dynion yn cael ei ystyried yn golff cymdeithasol.

10.3 Fel arwydd o barch, pan fo aelod wedi marw, (neu, o ddewis y Pwyllgor Rheoli, un nad yw'n aelod) gellir chwifio baner y clwb ar hanner y mast.

10.4 Ni ddylai chwaraewyr lanhau esgidiau nac offer yn y maes parcio. Darperir offer chwythu pwrpasol ar gyfer hynny mewn man cyfagos.